


ITDH6002C

A Oes Cyfleoedd i Hyrwyddo **Creadigrwydd o fewn** **Daearyddiaeth?**

1301484

BA Addysg Gynradd gyda SAC
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Ebrill 2016



Datganiad

Mae hyn i dystio mai fy ngwaith i yn llwyr yw'r prosiect ymchwil hwn, ac eithrio lle cyfeirir at waith eraill. Nid yw'r prosiect ymchwil hwn neu unrhyw ran ohono wedi cael ei gyflwyno, neu yn cael ei gyflwyno mewn ymgeisyddiaeth am unrhyw ddyfarniad arall, heblaw am fel rhan o'r radd BA (Anrh) Addysg Gynradd gyda SAC ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Rwy'n deall fod unrhyw waith y defnyddiaf heb gyfeirio ato yn weithred o lôn-ladrad, a bydd hyn yn arwain at fethu'r modwl hwn.

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i'r rheini sydd wedi cyfrannu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd i'r prosiect ymchwil hwn. Diolch i ddarlithwyr y Brifysgol; Dr Sioned Hughes, Dr Geraint Davies, Ms Natalie Griffiths a Ms Sue Pellew-James am rannu eu harbenigedd ynglŷn â rôl a phwysigrwydd y Dyniaethau yng nghwricwlwm ysgolion cynradd. Yn ogystal â hynny, dymunaf fynegi fy ngwerthfawrogaeth tuag at yr athrawon a'r disgyblion yn yr ysgol yr wyf yn cyflawni fy lleoliad PAP olaf. Mae eu cyfraniad a'u cefnogaeth wedi bod yn gwbl hanfodol tuag at sicrhau datblygiad yn fy mhrosiect ymchwil.

Cynnwys

Pennod 1- Cyflwyniad

- 1.1 Nod a rhesymwaith
- 1.2 Cefndir yr astudiaeth
- 1.3 Damcaniaeth cychwynnol
- 1.4 Dulliau ymchwil
- 1.5 Dadansoddi cwestiwn y prosiect ymchwil
- 1.6 Diddordeb personol

Pennod 2-Adolygiad Llenyddiaeth

- 2.1 Daearyddiaeth yn y cwricwlwm cynradd
- 2.2 Daearyddiaeth yn natblygiad plentyn
- 2.3 Creadigrwydd
- 2.4 Addysgu daearyddiaeth yn greadigol
- 2.5 Arferion cyfredol mewn ysgolion cynradd

Pennod 3- Methodoleg

- 3.1 Dulliau casglu gwybodaeth a rhesymeg/ cyfiawnhad
- 3.2 Moeseg
- 3.3 Cyfyngiadau'r dulliau ymchwil

Pennod 4- Canlyniadau a Thrafodaeth

- 4.1 Holiaduron a chyfweliadau athrawon
- 4.2 Cyfweliad plant
- 4.3 Arsylwi plant

Pennod 5- Casgliad

- 5.1 Adlewyrchu ar fwriad y prosiect ymchwil
- 5.2 Prif bwyntiau a godir
- 5.3 Dysgu proffesiynol

5.4 Awgrymiadau ar gyfer ymchwil pellach

5.5 Diweddsglo

Rhestr cyfeirnod

Atodiadau

1. Ffurflen Foeseg.
2. Holiadur.
3. Atebion 2 holiadur (a & b).
4. Cwestiynau'r cyfweliadau athrawon.
5. Atebion y ddau gyfweliad (a & b).
6. Rhestr o holl atebion holiaduron a chyfweliadau'r athrawon.
7. Cwestiynau cyfweliad y plant.
8. Atebion cyfweliad y plant.
9. Rhestr o holl atebion y plant.
10. Ffurflen Fodel ARC- Arsylwad

Rhestr Ffigurau

Rhif ffigur:	Disgrifiad:	Rhif tudalen:
Ffigur 1	Cysyniadau allweddol yn ymwneud â daearyddiaeth yn y cwricwlwm (DfE, 2013).	8
Ffigur 2	Ymateb athrawon i gwestiwn 4.	11
Ffigur 3	Ymateb athrawon i gwestiwn 6.	13
Ffigur 4	Ymatebion pellach athrawon i gwestiwn 7.	15

Pennod 1- Cyflwyniad

1.1 Nod a rhesymwaith

Amcanion yr ymchwil hwn yw i ehangu gwybodaeth bersonol a phroffesiynol ynglŷn â sut mae hyrwyddo creadigrwydd wrth addysgu a dysgu daearyddiaeth yng Nghyfnod Allweddol 2. Erbyn diwedd y prosiect ymchwil bwriedir cyrraedd y nod o ddarganfod sut y gellir ystyried daearyddiaeth a chreadigrwydd fel cynghreiriaid yn y broses addysgu, i hybu diddordeb a chodi safonau.

Penderfynwyd astudio'r ardal hon er mwyn tanio holgarwch personol ac i ehangu storfa gwybodaeth yr ymchwilydd ynglŷn ag addysgu daearyddiaeth i blant, a deall sut mae'n bosib hybu creadigrwydd wrth wneud hyn. O safbwynt personol, ystyrir daearyddiaeth fel maes cwricwlaidd y mae angen gweithredu mewn modd mwy hyderus a chyson ar draws profiadau cynllunio ac addysgu'r ymchwilydd. Teimlir felly y bydd y prosiect ymchwil hwn yn cyfrannu at hyn, gan adeiladu ar ddealltwriaeth gyfredol a llywio gwybodaeth ac arferion yr ymchwilydd.

1.2 Cefndir yr astudiaeth

Gan ystyried safle daearyddiaeth fel pwnc allgraidd yn y cwricwlwm cenedlaethol, nid yw'n syndod ei bod yn dueddol o ddod ar ôl y pynciau craidd megis Iaith a Mathemateg o ran blaenoriaeth. O ganlyniad i hyn, gellir dadlau nid yw plant ifanc yn derbyn cyfleoedd digonol i ddatblygu eu gwybodaeth ddaearyddol cystal â'u gwybodaeth ieithyddol a mathemategol.

Derbyniwyd yn gyffredinol y pwysigrwydd o greadigrwydd mewn addysg plant ifanc. Er hynny, tueddiad naturiol yw i gysylltu creadigrwydd gyda phynciau megis celf, cerddoriaeth ac iaith. Oherwydd hyn felly, caiff daearyddiaeth ei hesgeuluso yn aml fel pwnc sydd yn cynnig cyfleoedd i fod yn greadigol. Trwy gydol y prosiect hwn bwriedir dirymu'r cyffredinoliad hwn, wrth archwilio'r modd y mae gan ddaearyddiaeth a chreadigrwydd gysylltiad mwy cadarn nag yr ystyrir, a sut y maent yn cael eu gweithredu law yn llaw o fewn ystafelloedd dosbarth heddiw.

1.3 Damcaniaeth cychwynnol

Cyn dechrau ar y prosiect barn gychwynnol yr ymchwilydd oedd bod creadigrwydd yn derbyn digon o adnabyddiaeth a phwyslais o fewn ysgolion Cymru. Er hynny, teimlir nid yw'r cysylltiad rhwng creadigrwydd a daearyddiaeth yn ddigon amlwg yn yr ysgolion a dreuliwyd amser ynddynt. Dros y cyfnodau yma o amser ni welwyd unrhyw anomaledau hynod yng ngwersi daearyddiaeth, ond yn hytrach gwersi a oedd yn dilyn yr un fath o fformat, themâu ac yn defnyddio'r un adnoddau i'w cefnogi. Bydd Pennod 4 o'r prosiect ymchwil yn herio'r syniad yma, wrth ymdrin ag atebion athrawon o gyfweiliadau yn ymwneud â'u triniaeth nhw o ddaearyddiaeth a chreadigrwydd yn yr ystafell ddosbarth.

1.4 Dulliau ymchwil

Er mwyn cyrraedd y nodau ac amcanion a amlygwyd eisoes, y dulliau ymchwil priodol bwriedir defnyddio ar gyfer y prosiect penodol hwn fydd:

- Cyfweiliadau gydag athrawon;
- Holiaduron gan athrawon;
- Cyfweiliad gyda grŵp o ddisgyblion;
- Addysgu gwers ddaeryddiaeth, gan arsylwi a dadansoddi ymateb ac ymrwymiad y disgyblion;
- Adolygiad llenyddiaeth yn ymwneud â daearyddiaeth a chreadigrwydd yn yr ysgol gynradd.

Trwy gasglu tystiolaeth o'r casgliad o ddulliau yma, gobeithir ychwanegu amryw o ddimensiynau at y prosiect, gan ystyried daearyddiaeth a chreadigrwydd o safbwyntiau amrywiol.

1.5 Dadansoddi cwestiwn y prosiect ymchwil

Wrth arsylwi ar brif gwestiwn y prosiect ymchwil yn arwynebol gellir ei ddadansoddi a'i dorri i mewn i bedwar rhan. Yn gyntaf; y *cyfleoedd* sydd ar gael i athrawon i gwblhau'r hyn a awgrymwyd. Yn ail; i ystyried beth a olygir wrth y term *hyrwyddo*, a sut mae ei gyflawni. Yna, gellir dadlau mai dau ffocws canolog y cwestiwn yw'r syniad o *greadigrwydd* o fewn *daearyddiaeth*. Trwy fynd i'r afael â'r ymchwil hwn a chadw bob un o'r pedwar ffocws yma mewn cof, gobeithir ateb y cwestiwn sylfaenol hwn mewn modd effeithiol a chynhwysfawr.

1.6 Diddordeb personol

Ystyrir y prosiect ymchwil hwn gan yr ymchwilydd fel cyfle gwerthfawr i ehangu gwybodaeth bersonol ynglŷn â sut mae addysgu daearyddiaeth yn effeithiol ac yn greadigol yn yr ysgol gynradd. Amcenir i drin yr ymchwiliad felly fel arf ddefnyddiol yn natblygiad proffesiynol yr ymchwilydd.

Pennod 2- Adolygiad Llenyddiaeth

Mae'r bennod hon yn adolygu'r llenyddiaeth ynghylch daearyddiaeth yng nghwricwlwm ysgolion cynradd, a'r modd y gall y maes cwricwlaidd yma gyfrannu tuag at ddatblygiad plentyn yn academiaidd ac yn gymdeithasol. Un o'r trafodaethau mwyaf arwyddocaol sydd wrth wraidd ddaearyddiaeth yn yr ysgol gynradd yw'r syniad o ddatblygu disgyblion i fod yn ddinasyddion byd eang, ac i fedru byw a bod yn eu cymunedau yn llwyddiannus. Yn gyfochrog â daearyddiaeth, canolbwyntir ar greadigrwydd, a'r cysylltiad sydd ganddo gyda'r pwnc. Awgrymir y cyfleoedd sydd ar gael i addysgu daearyddiaeth yn greadigol, a'r modd y mae ysgolion yn llwyddo i wneud hyn ar hyn o bryd.

2.1 Daearyddiaeth yn y cwricwlwm cynradd

Gellir dadlau bod meddwl yn greadigol wedi bod yn rhan annatod o ddaearyddiaeth am ganrifoedd. Mae'r gallu i gynhyrchu syniadau creadigol a meddwl y tu allan i'r bocs wedi galluogi i ffigurau dylanwadol megis Wegener (a sefydlodd y cysyniad o symudiad cyfandirol) i gyflwyno'u syniadau trawiadol a newidiodd ein gweledigaeth o'r byd am byth (Scoffham, 2007:2).

Mae'n wir i ddweud bod rôl daearyddiaeth yn y cwricwlwm wedi wynebu newidiadau sylweddol dros y blynyddoedd. Yn dilyn sefydliad y Cwricwlwm Cenedlaethol yn 1989, ac yn ddilynol y rhaglenni astudio ar ei chyfer yn 1991, nid oedd athrawon yn hyderus iawn yn eu galluedd i addysgu'r pwnc (Catling & Willy, 2009:1). Am gyfnod o amser ystyriwyd daearyddiaeth fel pwnc 'Sinderela' nas gwerthfawrogydd digon, gan arwain ato'n cael ei anwybyddu, ei esgeuluso a'i fychanu o ran pwysigrwydd (Wiegand, 1993:2). Er hynny, derbynnir achrediad mwy hael bellach, gydag OFSTED (2011:5) yn datgan: "Geography has a distinctive role in the curriculum in linking the disciplines of science and humanities." Erbyn heddiw, derbynnir daearyddiaeth fel rhan hanfodol o'r cwricwlwm cynradd, ac fel arf bwerus mewn sicrhau dealltwriaeth disgyblion o berthynas pobl gyda'r byd o'u cwmpas, gan fagu ynddynt yr ymdeimlad o berthyn i le penodol (Hoodless et.al. 2009:2).

2.2 Daearyddiaeth yn natblygiad plentyn

Honna Grigg a Hughes (2013:14): "By the age of five, most children readily ask questions about where they live and the natural world." Atseinir y chwylfrydedd a'r gallu naturiol yma sydd gan blant i ddarganfod mwy am eu cyffiniau a'u lleoliad yng nghyd-destun byd-eang gan Seefeldt (1999:1): "Children's everyday play and experiences give them the basis for the geographic knowledge that they will learn in school." Wrth feddu ar y wybodaeth hon, maent yn medru adeiladu ar eu dealltwriaeth o gysyniadau, termau ac egwyddorion daearyddol a fydd yn chwarae rhan barhaol trwy gydol eu haddysg.

2.3 Creadigrwydd

Mae creadigrwydd yn derm sydd yn gyffredin ac yn ddigon dealladwy i'r rhan fwyaf o bobl, ond eto i gyd nid yw'n dasg syml i geisio'i ddiffinio. Nid yw creadigrwydd yn gysyniad newydd mewn addysg chwaith. Yn 1870, yn dilyn cyflwyniad y Ddeddf Addysg Gyntaf, ni chroesawyd y syniad o greadigrwydd yn y cwricwlwm, ond ffocyswyd yn hytrach ar ddarllen, ysgrifennu a rhifedd (2011:5). Canrif yn ddiweddarach, gwelwyd trobwynt ym mhwsigrwydd creadigrwydd yn y cwricwlwm. Daethpwyd o ganlyniad i'r Adroddiad Plowden (1967), a agorodd ddrysau i agweddau pedagogaid eraill megis dysgu i ddarganfod, dysgu plentyn-ganolog a'r syniad o gwricwlwm integredig (Wilson, 2015:7). Gellir ystyried Adroddiad Plowden felly fel y sbardun ar gyfer hybu creadigrwydd yn yr ysgol gynradd. O hynny ymlaen, parhawyd i osod creadigrwydd fel rhan ganolog o ddysgu plant, trwy'r cyflwyniad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol (1990'au), dogfen NACCCE (1999), a chanllawiau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (2008b) ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

Caiff pwysigrwydd creadigrwydd ei gydnabod yn eang fel gweithrediad sydd yn medru ychwanegu at a chyfoethogi gwaith plant. Wrth edrych ar egwyddorion ac ymarferion ysgolion Montessori mae'n bosib gweld sut mae datblygu creadigrwydd plentyn yn medru cyfrannu at eu sgiliau fel unigolyn creadigol; sgiliau y gallent gario â hwy trwy gydol eu bywydau (Jesson, 2012:3). O safbwynt gwladol, atseinir y pwysigrwydd o hybu creadigrwydd disgyblion yng nghwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, gyda 'Datblygiad Creadigol' yn symboli un o'r saith maes dysgu, a 'Chreadigrwydd' yn rhan o'r 'Sgiliau ar Draws y Cwricwlwm' a amlygir yn y 'Fframwaith ar gyfer Plant 3 i 7 oed' (Jones & Wyse, 2013:8).

Nodir yn nogfen y llywodraeth (APADGOS, 2008:4): "Dylai plant fod yn datblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd yn barhaus ar draws y cwricwlwm." Dyma syniad a gefnogir yn gryf gan Syr Ken Robinson; siaradwr addysgol adnabyddus a chefnogwr brwd o greadigrwydd mewn ysgolion cynradd. Honna ef fod creadigrwydd yn rhywbeth y dylid ei wau *ar draws bob ardal* o'r cwricwlwm:

People associate creativity with the arts only. I'm a great advocate of the arts, but creativity is really a function of everything we do. So education for creativity is about the whole curriculum, not just part of it.

Cyfeiria OFSTED (2010:4) at ysgolion sydd wedi bod yn llwyddiannus yn gwneud yr union beth; sef plethu creadigrwydd i mewn i addysg blant er mwyn codi safonau ar draws sgôp y cwricwlwm. Cyrhaeddant hyn trwy annog y plant i gwestiynu, meddwl yn ddychmygol, bod yn agored i bosibiliadau ac adlewyrchu'n feirniadol ar eu syniadau.

2.4 Addysgu daearyddiaeth yn greadigol

Erbyn heddiw ni ddylid ystyried creadigrwydd fel un o briodweddau'r pynciau celfyddydol. Cefnogir hyn yr adroddiad Robinson (1999):

while there were strong links between the expressive arts and creativity, viewing creativity as solely or mainly the province of the arts was unhelpful because it could lead to a denial of the role of creativity in other areas, such as science, mathematics and business.

NFER (2001:3)

Atega Scoffham (2013:8) hyn, gan bwysleisio nid yw creadigrwydd yn gyfyngedig i'r celfyddydau yn unig; ac er ei fod yn llai amlwg efallai, mae'r cysylltiad rhwng creadigrwydd a daearyddiaeth yn un sydd yn fuddiol i addysg blant. Cefnoga'i bwynt trwy gyfeirio at ddatganiad Michael Palin, a ddisgrifiodd daearyddiaeth fel "a fusion of the power of the imagination and the hard truths of science." Ehanga Scoffham ar hyn, gan grybwyll fod defnyddio'r dychymyg i ddarganfod gwirioneddau'r byd yn broses hynod o greadigol yn ei hun (2013:9).

Honna'r EYFS (2007:1) fod creadigrwydd yn dod i'r wyneb pan mae plant yn ymgolli eu hunain yn y broses o archwilio'r byd o'u cwmpas. Cyffelybir hyn gyda datganiad y DfEE (1999), sy'n disgrifio daearyddiaeth fel proses sydd yn ysbrydoli plant i feddwl am eu lle yn y byd, eu gwerthoedd, eu hawliau a'u cyfrifoldebau dros bobl eraill a'u hamgylchedd (Fisher & Williams, 2004: 129).

2.5 Arferion cyfredol mewn ysgolion cynradd

Un o'r sylwadau a darddwyd o Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer y flwyddyn 2014/15 oedd y syniad bod creadigrwydd yn dod yn fwyfwy amlwg ym mhrosesau cynllunio athrawon (2016:23). Disgrifia HMIE (2006:13) yr arferion da o gynllunio creadigol mewn ysgolion Albanaidd:

teachers designed activities and contexts to promote creativity and expected and trusted pupils to be creative, take risks, speculate, perceive and respond in 14 different ways, express themselves openly, self-evaluate and persevere after initial attempts...

Gwelir arweinyddiaeth bellach gan QCA (2004:13) ynglŷn â sut mae cynllunio'n effeithiol ar gyfer creadigrwydd. Cyfeiria at nodweddion megis; gosod pwrpas clir ar gyfer dysgu plant, sicrhau eglurder o ran rhyddid a chyfyngiadau, tanio dychymyg disgyblion a chreu cyfleoedd niferus iddynt weithio gyda'i gilydd. Awgryma'r datganiadau hyn, at ei gilydd, bod creadigrwydd plant ifanc yn rhywbeth sydd yn dod yn naturiol i nifer ohonynt, ond hefyd yn cael ei rymuso trwy gynllunio a pharatoi effeithiol gan yr addysgwr. Yng nghyd-destun y prosiect ymchwil hwn felly, bwriedir canolbwyntio ar safbwynt y disgybl a'r addysgwr, a'r rhan y chwaraea'r ddwy gydran yn y broses o wneud daearyddiaeth yn greadigol.

Pennod 3- Methodoleg

3.1 Dulliau casglu gwybodaeth a rhesymeg/ cyfiawnhad

Y rheswm dros ddefnyddio mwy nag un dull ymchwilio oedd i sicrhau dyfnder ac ehangder i'r prosiect, ac i gynllunio cyfleoedd digonol ar gyfer casglu swmp o wybodaeth ddefnyddiol. Yn derfynol, gobeithir dod â'r holl wybodaeth yma ynghyd er mwyn ffurfio ateb rhesymegol i gwestiwn canolog y prosiect.

Fel nodais eisoes ym mhennod 1.4, ystyriais gyfweiliadau, holiaduron ac arsylwadau fel y dyfeisiau mwyaf defnyddiol ar gyfer casglu gwybodaeth. Dechreuais drwy gyfweled â dwy athrawes yr oeddwn mewn cysylltiad cyson gyda [atodiadau 4 a 5]. Teimlais y byddai cyfweled gydag athrawon yr oeddwn yn ddigon gyfarwydd â yn darparu atebion gonest a dilys, lle byddai atebion holiadur efallai ychydig yn llai personol ac yn fwy arwynebol. Cefnoga hyn gan Valenzuela a Shrivastava (d.d), sydd yn datgan bod "Interviews are a far more personal form of research than questionnaires." Gan ystyried hyn, teimlaf felly y byddai'r ymdeimlad o wirionedd a amlyga'i hun yn y cyfweiliadau yn mynd yn bell wrth ddadansoddi a ffurfio darlun cyflawn o deimladau athrawon tuag at y testun.

Ar y llaw arall, gellir dadlau bod hyn yn gofyn am ormod o amser, ac i rai mae'n bosib gall y dull yma ymddangos yn weddol ymwythol (Queen Margaret University, 2011:3). Yn dilyn y cyfweiliadau, darperais dri holiadur [atodiadau 2 a 3] i athrawon eraill yr ysgol, lle bu'r cysylltiad rhyngof i a hwy yn llai cyson. Mae'n bwysig nodi bod y cyfweiliadau a'r holiaduron yn defnyddio union yr un cwestiynau- gyda'r fformat yn unig yn wahanol. Yn wahanol i'r cyfweiliadau a oedd rhaid eu trefnu o flaen llaw, roedd yr holiaduron yma yn rhywbeth y gallai'r athrawon lenwi yn eu hamser sbâr; elfen y teimlais i fod yn llawer mwy cyfleus ar eu cyfer wrth ystyried bywydau prysur athrawon. Cytuna Phellas *et.al* (2011: 184) gydag effeithiolrwydd holiaduron neu archwiliadau: "surveys can be especially useful when respondents need time to gather information or consider their answers."

O ran y disgyblion, cyfweleis â grŵp o bedwar plentyn a'u cwestiynu am ddaearyddiaeth [atodiad 8 a 9]. Rhoddodd gyfweiliadau'r disgyblion mwy o welediad i mi ynglŷn â beth mae daearyddiaeth yn symboli iddynt hwy. Yn eu tro, gall yr atebion yma fod yn werthfawr dros ben i athrawon wrth iddynt fynd ati i gynllunio gwersi creadigol y bydd y plant yn mwynhau. Er hynny, ceir rhwystrau wrth geisio cynnal cyfweiliadau gyda phobl ifanc. Yn gyferbyniol â chyfweiliadau gydag athrawon, lle maent yn ddigon hyderus i fynegi barn bersonol a gonest, cyfeiria Punch (2002:325) at y rhagdybiaeth gyffredin bod plant yn dueddol o ddweud yr hyn mae'r oedolyn eisiau clywed o fewn sefyllfa benodol. Yn yr enghraifft hon, mae'n ddigon posib i weld plant yn gwneud yr union beth er mwyn gwneud argraff dda ar yr ymchwilydd, a derbyn adnabyddiaeth neu ganmoliaeth am eu hatebion.

Yn ystod fy nghyfnod yn nosbarth Cyfnod Allweddol 2, roeddwn yn ddigon ffodus i dderbyn cyfleoedd i addysgu daearyddiaeth. Penderfynais felly i ffurfio nodiadau bras [atodiad 10] ar ddiwedd

bob gwers lle gwelwyd elfen ddaearyddol, gan wneud sylwadau ar ymrwymiad a pherfformiad y disgyblion.

3.2 *Moeseg*

Wrth gynnal y prosiect ymchwil hwn hanfodol oedd ystyried y cyfrifoldebau moesegol yn gysylltiedig â'r broses. Dyma elfen yr oedd yn bwysig cadw mewn cof ar ddechrau *a thrwy gydol* y cyfnod, er mwyn sicrhau fy mod yn gweithredu yn gywir, yn ddiogel ac yn unol gyda chanllawiau BERA. Trwy ddangos dealltwriaeth ac ystyriaeth o'r arweiniad hwn gobeithiaf gynhyrchu ymchwil sydd o'r safon ofynnol a chywir: "to reach an ethically acceptable position in which their actions are considered justifiable and sound" (BERA, 2011:4).

I ddechrau, fel y gwelir wrth atodiadau 2 a 4, derbyniais ganiatâd oddi wrth bob athro ac athrawes a gyfrannodd tuag at y cyfweiliadau a'r holiaduron. O ran y disgyblion, sicrheais fy mod yn derbyn cadarnhad gan yr athrawes ddosbarth fy mod yn medru cyfweld â grŵp ohonynt fel rhan o'r ymchwil. Esboniais i'r plant bwriad y cyfweiliad, ac roeddwn yn falch iawn gyda'u hymrwymiad a'u brwdfrydedd trwy gydol y broses. Yn olaf, yn unol â chanllawiau BERA ynghylch diogelwch a chyfrinachedd, ni ddatgelwyd manylion unrhyw unigolyn wrth gofnodi'r dystiolaeth sydd i'w weld yn atodiad 1 ynghlwm â'r ffurflen foeseg.

3.3 *Cyfngiadau'r dulliau ymchwil*

Fel y cyfeiriwyd ati uchod, profodd y cyfweiliadau i fod yn heriol o ran amser a chaffaeledd yr athrawon. Yn ogystal â hynny, pan ddaeth yr amser i gynnal y cyfweiliadau nid oeddwn wedi bod yn yr ysgol am gyfnod hir o amser, felly teimlais fwyaf hyderus a chyffyrddus yn gofyn i'r ddwy athrawes ffurfiais gysylltiad digon agos â hwy.

O ran yr holiaduron, ni dderbyniais un ohonynt yn ôl, felly gall faint y sampl fod yn gyfyngedig wrth ddadansoddi'r canlyniadau. Gan ystyried amserlen brysur a chyson athrawon, gallaf ddeall efallai ei fod wedi bod yn heriol i ddod o hyd i amser sbâr i lenwi'r holiadur. Efallai byddai darparu'r holiadur yn gynharach wedi lleihau'r rhwystr yma i raddau a chynhyrchu sampl mwy o faint.

Pennod 4- Canlyniadau a Thrafodaeth

Pwrpas y bennod hon yw i astudio a dadansoddi'r canlyniadau a darddwyd o'r dulliau ymchwil. Yn dilyn y broses ymchwilio, treuliwyd amser yn craffu ar y data gan amlygu'r prif syniadau a godwyd, a'r cysylltiadau a ddeilliodd o'r atebion amrywiol. Cynhyrchwyd y canlyniadau gan yr atebion a dderbyniwyd oddi wrth gyfweiliadau a holiaduron athrawon, y cyfweiliad gyda grŵp o blant ac arsylwadau ohonynt. Gwelir crynhoad o'r holl atebion gan yr athrawon a'r disgyblion yn atodiadau rhif 6 a 9.


4.1 Holiaduron a Chyfweiliadau Athrawon

Rhanna'r holiadur [atodiad 2] i mewn i saith cwestiwn, gyda'r prif ddiben o ddadlennu a dysgu am deimladau ac athroniaeth athrawon tuag at daearyddiaeth fel pwnc a'r cysylltiadau y mae'n bosib gwneud gyda chreadigrwydd. O safbwynt athrawon yr ysgol, adeiladwyd y data o ddau gyfweiliad a dau holiadur a oedd yn holi'r un cwestiynau. Trafodir yr atebion o'r cyfweiliadau a'r holiaduron fel un corff o wybodaeth felly.

Amlygwyd o'r atebion bod cytundeb cyffredinol ymysg addysgwyr ynghylch pwysigrwydd daearyddiaeth yn y cwricwlwm. Er iddo fod yn bwnc allgradd, tystiwyd y modd y mae athrawon yn creu cyfleoedd dilys ac aml i ddatblygu gwybodaeth y disgyblion o'r byd o'u cwmpas. Yn yr un modd, ni ellir gwadu'r derbyniad a chymeradwyaeth y derbynia creadigrwydd yn y maes addysg. Profwyd ymateb positif gan yr athrawon wrth drafod y syniad, sydd yn atgyfnerthu'r awgrymiadau a drafodir yng ngwaith ymchwil y Comisiwn Ewropeaidd (2009:16), a honna fod tua 53% o athrawon Ewrop yn cytuno bod creadigrwydd yn chwarae rôl bwysig yn y cwricwlwm, gyda 20% yn hollol sicr o hyn.

1. Beth ydych chi'n credu yw pwrpas daearyddiaeth yn y cwricwlwm?

Datgenir yn nogfen yr Adran Addysg (DfE, 2013:1) mai prif bwrpas daearyddiaeth o safbwynt academiaidd yw "[to] equip pupils with knowledge about diverse places, people, resources and natural and human environments, together with a deep understanding of the Earth's key physical and human processes." Trwy ddadansoddi'r crynhoad hwn ac amlygu'r geiriau allweddol, gellir ei rannu i mewn i'r cysyniadau dilynol:



Ffigur 1

Diddorol yw nodi'r paralelau a godwyd rhwng diffiniad uchod yr Adran Addysg, ac atebion yr athrawon a gwestiynwyd. Gwnaethpwyd cyfeiriadau tuag at sut y dylai plant ddysgu am yr amgylchedd a datblygu ymwybyddiaeth o'r hyn sydd yn cael effaith arno. Fel heura Davis (2015:9), mae gan y genhedlaeth ieuengaf gyfrifoldeb anferthol arnynt bellach i weithredu yn erbyn y niwed a wnaed i'r ddaear dros y degawdau diwethaf. Gan gyfeirio nôl at y cwestiwn, os nad yw'r plant yn derbyn yr addysg briodol a chywir i ddelio gyda'r dyfodol hwn, yna mae'n rhaid ystyried sut fydd y gwrthsymudiad yma yn cymryd lle. Cyfateba hyn gydag ateb un cyfrannwr ar gyfer cwestiwn 7 [atodiad 6], a honnodd fod rhaid i'r: "cenhedlaeth nesaf meddwl am ffyrdd newydd i ofalu am ein hamgylchedd."

Yr ail ateb cyffredin ymysg yr athrawon oedd yr arwyddocâd o wledydd eraill yn addysgu plant o'r byd. Cyfeiriodd un cyfrannwr at y ffaith bod nifer helaeth o blant yn anymwybodol o'r byd tu hwnt i'w milltir sgwâr, ac mae'r syniad y dylid magu ym mhlant yr 'ymwybyddiaeth fyd-eang' yn parhau i amlygu ei hun ym myd addysg (The Guardian, 2012), (DFID, 2005). Yn ogystal â hynny, i gyfateb ymhellach gyda diffiniad yr Adran Addysg o bwysigrwydd daearyddiaeth, barnwyd gan 75% o'r athrawon bod dysgu am nodweddion dynol a naturiol yn rhan annatod o'r maes cwricwlaidd hwn. Ehangodd un cyfrannwr ar hyn, gan gyfeirio at y modd y gellid ffocysu ar dir ac afonydd.

2. Beth ydych chi'n credu yw'r prif heriau wrth addysgu daearyddiaeth?

Yn dilyn cyflwyniad daearyddiaeth i'r cwricwlwm cenedlaethol yn 1989 cynhaliwyd astudiaeth ddylanwadol a chafodd bod 48% o athrawon ysgol gynradd yn teimlo'n hyderus yn eu galluedd i addysgu daearyddiaeth. Erbyn 1991 gwelwyd bod y canran yma wedi cwmpo i 36% (Catling *et.al*, 2003:2). Yr heriau cyffredin a gyfeiriwyd atynt gan y cyfranwyr oedd ynglŷn â'r adnoddau sydd ar gael i gyfoethogi gwers daearyddiaeth, a'r cyfleoedd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

Yn aml caiff y cysyniad o ddysgu tu allan i'r ystafell ddosbarth ei gysylltu gyda lleoli disgyblion mewn gosodiadau gwledig, naturiol; wedi'u hamgylchynu gan wyrddni. Cefnogir y cyffrediniol hwn gan sylwad un cyfrannwr a honna fod lleoliad dinasol yr ysgol wedi arwain at lai o gyfleoedd i fynd â'r dysgu tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yn wrthwynebol i hyn, dadleua canfyddiadau astudiaeth yr Athro Power (EOC, 2010:8) yn erbyn y safbwynt hwn, gan awgrymu bod plant sydd yn mynychu ysgolion gwledig yn derbyn llai o gyfleoedd i ddysgu tu allan i'r ystafell ddosbarth na phlant mewn ysgolion dinasol. Mae'r canfyddiad hwn yn unol ag egwyddor ysgolion Steiner Waldorf, sydd yn ystyried dysgu ymarferol yn yr awyr agored fel rhan annatod o'u hethos (Gillman, 2014:26). Fodd bynnag, dengys canlyniadau'r data ar gyfer y prosiect ymchwil hwn fod hon yn ardal o gwricwlwm daearyddiaeth sydd â chyfleoedd i'w datblygu fel ysgol.

Soniodd fwy nag un o'r athrawon am y syniad bod adnoddau yn her bosib wrth addysgu daearyddiaeth. Gan fod daearyddiaeth yn bwnc sydd yn cael ei hatgyfnerthu gan sbardunau gweledol

(Geographical Association, 2014), gall adnoddau chwarae rhan hanfodol wrth ennill diddordeb disgyblion a sicrhau eu hymrwymiad o fewn gwersi ymarferol a chreadigol.

Cyhoeddwyd cryn dipyn o lenyddiaeth ar y modd y mae addysg plant yn dechrau cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol, gan gynnwys ymgyrch gan y Llywodraeth yn 2014 a bwysleisiodd y syniad bod ‘Addysg yn Dechrau yn y Cartref’. Mewn astudiaeth bwysig arall, cafodd y ‘Department of Education’ (2011:3): “nearly three quarters of a child’s brain is ‘wired’ by the time they are five years old. That makes it the fastest period of growth and development in life.” Awgrymir bod cyfathrebiad o oedran cynnar yn medru cael effaith sylweddol ar berfformiad a chyrhaeddiad plentyn yn yr ysgol (Hamer, 2012:19). Cyfeiriodd un cyfrannwr at y ffaith bod nifer o blant yn cael eu difeddiannu o’r cyfleoedd angenrheidiol i ddatblygu’r sgiliau sylfaenol Daearyddol yn y cartref, gydag astudiaeth y National Literacy Trust (2005:18) yn cefnogi hyn. Honnodd y cyfrannwr bod hwn yn medru arwain at ddiffyg dealltwriaeth yn yr ystafell ddosbarth- her sylweddol i athrawon.

3. Yn eich barn chi, beth yw pwysigrwydd creadigrwydd yn y cwricwlwm?

Er bod creadigrwydd yn rhywbeth ni ellir ei ddiffinio mewn ambell air, y geiriau sydd yn amlygu eu hunain yn aml wrth ymdrin â’r testun hwn yw ‘dychymyg’ a ‘syniadau’ (Oxford Dictionaries, 2016), (Sefertzi, 2000:2), (Beaney, 2005). Mewn astudiaeth bwysig arall, cafodd Stokes (d.d:1) fod y termau ‘creadigrwydd’ a ‘dychymyg’ yn aml yn cael eu defnyddio yn gydgyfnewidiol. Mae atebion y cwestiwn yma yn unol â chanfyddiadau’r awduron uchod, gyda’r cyfranwyr yn cyfeirio at y syniad o *sbarduno* a thanio *dychymyg* y disgyblion trwy greadigrwydd.

Gwelir newidiadau sylweddol i’r ystafell ddosbarth a’i arferion dros y blynyddoedd. Gan symud i ffwrdd o’r ffurf ‘traddodiadol’ o addysgu a seiliwyd ar adrodd ffeithiau a chofio gwybodaeth, gosodir mwy o bwyslais bellach ar y plentyn; gyda’r egwyddor plentyn-ganolog yn ganolbwynt i’r mwyafrif o osodiadau addysgu bellach. Crynhoir y dynesiad hwn yn berffaith gan Dewey yn 1959:


the old education . . . may be summed up by stating that the center of gravity is outside the child. It is in the teacher, the textbook...Now the change which is coming into education is the shifting of the center of gravity . . . the child becomes the sun about which they are organized...

Entwistle (2012:11)

Trwy addasu’r broses ddysgu yn y modd hwn, nid yw’r plant yn cael eu cyfyngu i ddilyn strwythur anhyblyg- maent yn symud ar raddfa sydd yn realistig ac yn gyraeddadwy iddyn nhw. Dyma rywbeth a nodwyd gan ddau o’r cyfranwyr fel un o gryfderau creadigrwydd yn y cwricwlwm; sef y modd y mae gweithgareddau ymarferol a chreadigol yn darparu cyfleoedd i blant weithio yn annibynnol, heb eu cyfyngu ac yn rhydd i ddilyn eu dychymyg.

4. Beth sydd yn gwneud athro/ athrawes greadigol?

Awgryma Cremin (yn Wilson, 2009) fod creadigrwydd yn grefft naturiol yn hytrach na sgil y gellir ei addysgu. Mae addysgwr creadigol yn arddangos holl nodweddion yr hyn sydd yn gwneud addysgwr llwyddiannus, megis; cymhelliant a disgwyliadau uchel, y gallu i gyfathrebu a gwrandao, a'r sgil o ymddiddori, ymddiddan ac ysgogi disgyblion (Morris, 2006:5). Wrth holi'r athrawon ynglŷn â'r hyn sydd yn gwneud addysgwr creadigol, gwelwyd tebygrwydd amlwg rhwng ymatebion, fel y gwelir yn y ffigur isod:



Ffigur 2

Barnodd hanner y cyfranwyr bod dychymyg yn rhan bwysig o addysgu yn greadigol. Cefnogir hyn yn eang (Sharp, 2004:5),(Education Scotland, 2013:7). Yr un yw barn Mapes (2013:2) a honna; “you cannot be creative without applying the imagination”. Gwelir wrth y golofn nesaf bod tri allan o bedwar o'r cyfranwyr yn ystyried cynllunio gweithgareddau ymarferol fel sgil sydd yn berthnasol i athrawon creadigol. Mae nifer o awduron wedi cefnogi'r buddion o dasgau ymarferol a ‘dysgu trwy wneud’ o fewn addysg blant (Hackathorn *et.al*, 2011:1), gydag Ord (2012:1) yn crybwyll geiriau Smith (1980): “. people learn best when they are personally involved in the learning experience”. Cydymffurfir hyn gyda theori John Dewey o ddysgu profiadol (Bonwell & Eison, 1991:18). Bodolir elfen bersonol i weithgareddau ymarferol felly, ac, yn allweddol i hyn; nid yw'r plant wedi'u cyfyngu i strwythur pendant- nodwedd a enwyd fel un o gryfderau creadigrwydd yn y cwricwlwm.

Nid yw'n bosib neu'n realistig i ddisgwyl pob disgybl i fwynhau ac ymddiddani'n llwyr ym mhob gwers, gan fod pob plentyn yn wahanol. Cytuna Railsback (2002:4) gyda'r ddadl hon: “Keeping

children engaged and motivated in school is challenging, even for the most experienced teachers...it is difficult to prescribe a “one-size-fits-all” approach”. Er dweud hynny, gwelir wrth ganlyniadau’r cwestiwn hwn bod hanner o’r cyfranwyr yn barnu mai addysgwr da yw unigolyn sydd yn medru sbarduno a chyffroi disgyblion yn y broses o ddysgu, gan arwain at blant brwdfrydig sydd yn awyddus i weithio a chwblhau’r dasg. Mae’r syniad hwn yn unol â chanfyddiadau Seal (2003:1): “When kids are interested in what they’re learning...they go faster and farther.”

Awgryma Smith (2003:2); “if students are to learn to ‘take control’, the teacher may need to learn to ‘let go’”. Wrth ystyried y cynigiad uchod bod addysgwr creadigol effeithiol yn defnyddio’i ddychymyg ac yn meddwl tu allan i’r bocs; gellir ystyried y dechneg o drosglwyddo cyfrifoldeb draw at y plant fel enghraifft o hyn. Nododd tri chwarter o’r cyfranwyr bod gan addysgwr creadigol yr hyder a’r dewrder i basio’r cyfrifoldeb yma ymlaen at y disgyblion, gan symud o rôl yr addysgwr i hwylusydd y dysgu; dull a hybir gan Burnell (2008).

Yn olaf, disgrifiwyd athro neu athrawes creadigol fel rhywun sydd yn darparu ystod o gyfleoedd i blant fedru dysgu i’w gorau potensial. Os ydy creadigrwydd yn cael ei gysylltu gyda phrofiadau newydd (Radovic-Markovic, 2012:1), yna gellir gweld rhesymeg ym marn y cyfranwyr bod darparu ystod o gyfleoedd i ddisgyblion yn ehangu eu gorwelion creadigol.

5. Ydych chi’n medru rhoi enghraifft o sut yr ydych wedi hyrwyddo creadigrwydd o fewn daearyddiaeth?

Ceir amrywiaeth fwy sylweddol ymysg atebion y cwestiwn hwn, am y prif reswm fod yr athrawon yn cyfeirio at brofiadau personol fedrant alw i gof. Boed hynny, enghraifft a argymhellwyd gan dri chwarter o’r cyfranogwyr oedd i astudio’r thema ‘Ailgylchu’. Disgrifiodd un cyfrannwr y modd y gwnaeth y disgyblion creu eu papur lliw eu hunain, gan ddiffinio’r profiad fel un “ymarferol, hwylus a [gyda] neges bwysig.” Yn ychwanegol i hynny, cyfeiriwyd yn gyson gan y cyfranwyr at y modd y defnyddiwyd yr ardal leol i ddatblygu dealltwriaeth o ailgylchu; trwy deithiau amrywiol o gwmpas y dalgylch. Cytuna Dr Rita Gardner gyda’r effeithiolrwydd o ddysgu am yr ardal leol:


I can think of few better ways to help young people become more knowledgeable, engaged with and perhaps respectful of their local environments and communities than to get them studying their local area...

Royal Geographical Society (d.d:1)

Mae’r ffordd ymarferol yma o ddysgu yn atgyfnerthu’r sylwadau a wnaed eisoes yn yr ymchwil, ynglŷn â’r manteision sydd ynghlwm â throsglwyddo gosodiad y dysgu i gyd-destun sydd tu allan i’r ystafell ddosbarth. Barna un athro mai trwy’r gweithgareddau a phrofiadau ymarferol yma y llwyddai ef i hyrwyddo creadigrwydd o fewn daearyddiaeth.

6. Pa adnoddau ydych chi'n defnyddio er mwyn hyrwyddo creadigrwydd o fewn gwersi daearyddiaeth?

Heura Pike (2015:186) fod: “The resources selected and used in primary geography have an enormous impact on how geography is taught.” Cyfeiria nifer fawr o lenyddiaeth at bwysigrwydd ac effeithiolrwydd adnoddau wrth gyfoethogi dysgu ac addysgu (Chanda *et.al*, 2000), (Kyriacou 2007:51). Amlygir wrth y data bod y cyfranwyr hefyd yn adnabod ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd adnoddau wrth gefnogi addysg blant o ddaearyddiaeth. Gwelir isod yr atebion a oedd yn gyffredin rhwng y cyfranwyr:



Ffigur 3

Os gofiwn nôl at yr hyn a enwyd gan y cyfranwyr fel un o bwrpasau daearyddiaeth yn y cwricwlwm-sef i ddysgu am wledydd a lleoedd eraill, yna gellir ystyried storiâu fel yr arf i wneud yr union hyn. Honna QLS Staffordshire (d.d: 1): “Stories should transport people to different places (and times) in their imagination.”

Gellir trin offer technoleg yn ogystal fel arf bwerus ar gyfer cludo plant i ochr arall y byd. Crynhua BECTA (2004) yr hyn a farna OFSTED (2004) o safbwynt technoleg a daearyddiaeth: “Geography provides a rich and varied context for the use of new technologies to enhance both learning in the subject and to reinforce existing ICT skills.” Gellir barnu o brofiad personol yn y dosbarth y ceir ymateb positif i dechnoleg, boed hyn o’r bwrdd gwyn rhyngweithiol neu wrth i’r plant fynd ati i gwblhau tasg ar yr iPads neu’r cyfrifiaduron.

Mae'r defnydd o fapiau yng nghyd-destun Daearyddol yn draddodiad hir sefydlog a barheir i'w defnyddio o fewn ystafelloedd dosbarth cyfoes. Mynna Demiralp (2007) mai mapiau yw'r elfen ganolog o addysgu daearyddiaeth. Er bod hanner y cyfranwyr wedi cyfeirio at fap neu atlas fel ffordd o addysgu daearyddiaeth yn greadigol, ffurfiwyd dadl ymysg yr ymatebion wrth i un cyfrannwr ddatgan: "ry'n ni wedi neud gwers labelu atlasau a mapiau... ond i fi, dyw hynny ddim yn greadigol...hwnna yw'r 'norm'". Teimlir y byddai ymchwil pellach ar y pwnc hwn efallai wedi ffurfio cytundeb i'r ddadl hwn, trwy ofyn i'r rheini a gyfeiriwyd at fapiau i ehangu ar y modd y cawsant eu defnyddio yn greadigol.

Adnoddau eraill a gyfeiriwyd atynt oedd:


- adnoddau a grëwyd gan yr athrawon eu hun
- y we
- offer daearyddol (e.e. cwmpawd)
- arbenigwyr/ siaradwyr yn dod i mewn
- gweithdai
- arteffactau
- cardiau her
- ymweliadau

7. Pam ydy creadigrwydd o fewn daearyddiaeth yn bwysig?

*"O fewn daearyddiaeth ac o fewn **unrhyw** thema...os chi moen y plant i ddysgu, 'ma rhaid bod yn greadigol i ddenu nhw i **eisiau** dysgu"*

Yn dilyn y cyfweiliadau, yr holiaduron a'r arsylwadau, y dyfyniad uchod gan un o'r athrawon sydd yn aros y cof y mwyaf. Nid yw creadigrwydd yn rhywbeth sydd yn neilltuedig i ddaearyddiaeth yn unig, ond yn hytrach, mae ganddo gysylltiadau cadarn gyda phob cornel o'r cwricwlwm, a fydd yn darparu'r sgiliau angenrheidiol i ddisgyblion ar gyfer bywyd tu hwnt i addysg (Craft, 2001:11).

Sonia dau gyfrannwr sut gall yr elfen o creadigrwydd sbarduno diddordeb yn y disgyblion i ehangu eu gwybyddiaeth ddaearyddol. Ateb arall a godwyd sydd yn gysylltiedig â hyn yw'r awgrym y gall creadigrwydd o fewn daearyddiaeth darparu'r cyfle i blant ddysgu am fywyd tu hwnt i'w milltir sgwâr ac ehangu eu gwybodaeth fyd-eang. Cafwyd llu o ymatebion positif i'r cwestiwn olaf hwn, gan gynnwys;



Ffigur 4

Cadarnheir y diagram uchod felly bod cyfranwyr y cyfweiliadau a'r holiaduron mewn cytundeb dros bwysigrwydd creadigrwydd o fewn daearyddiaeth.

4.2 Cyfweiliad Plant [atodiad 8 a 9]

1. Beth ydych chi'n meddwl yw daearyddiaeth?

Llwyddodd pob cyfrannwr i ateb y cwestiwn gyntaf yn chwim ac yn hyderus, a gwelwyd bod tri chwarter o'u hatebion yn tarddu o'r un egwyddor a'r syniad o *leoliad*. Nododd un plentyn mai “dysgu am brif ddinasoedd” yw daearyddiaeth, gyda disgybl arall yn cyfeirio at “wledydd eraill” a'r trydydd yn barnu mai daearyddiaeth yw “dysgu am le mae pobl yn byw.” Cyfateba hyn yn union gyda chyfarwyddyd y Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n datgan bod daearyddiaeth yn yr ysgol gynradd yn cwmpasu pedwar elfen graidd; **lleoedd**, themâu daearyddol, sgiliau daearyddol a chysyniadau daearyddol (Catling, 2001:2). Atebodd y pedwerydd cyfrannwr ar raddfa ychydig yn fwy eang, gan honni: “Dwi'n meddwl taw daearyddiaeth yw dysgu am y byd.” Ceir ateb digon rhesymegol yma wrth ystyried gwreiddiau Groegaidd y term ei hunain, gyda “geo” yn golygu “daear” a “graphia” yn cyfieithu i “ysgrifennu” (Scoffham, 2007:2). Trwy'r dadansoddiad hyn portreir y syniad o ‘ysgrifennu am y ddaear’; sydd yn cydberthyn yn berffaith gyda dehongliad y plentyn yma o'r pwnc.

2. Ydych chi'n mwynhau daearyddiaeth ac ydy e'n beth dda i ddysgu amdani?

Nododd un atebwr ei bod hi'n hoff o'r elfen anturiaethus sydd i ddaearyddiaeth. Yng nghyd-destun y cwricwlwm, ystyrir y gweithgareddau anturiaethus yma i fod yn y ffurf o ddysgu tu allan i'r ystafell ddosbarth, megis trwy waith maes. Crybwylla yn y ddogfen gwricwlaid genedlaethol ar gyfer

daearyddiaeth sut y dylai disgyblion derbyn y cyfle i gymryd rhan mewn gwaith maes, “i arsylwi ac ymchwilio i leoedd a phrosesau go iawn” (APADGOS, 2008a:12). Derbynia’r math yma o ddysgu canmoliaeth o’r radd uchaf gan OFSTED yn ogystal: “Fieldwork and outdoor education are not just add-on; they are absolutely core for geography and for young people’s learning in general.” (2005:26).

Y rheswm olaf a ddaeth o’r cwestiwn ynghylch mwynhad o ddaearyddiaeth oedd y syniad ei bod yn bwnc sydd yn wahanol i’r ardaloedd cwricwlaidd cyffredinol a thraddodiadol megis iaith a rhifedd. Gellir dadlau mai’r themâu a’r cysyniadau anghyfarwydd sydd yn perthyn i ddaearyddiaeth yw’r hyn sydd yn denu diddordeb plant ac yn tanio ynddynt yr awydd i ddysgu mwy. Cefnogir y syniad o ddylanwad nodweddion anghyfarwydd ar ddiddordeb plentyn gan Bale (2013:90).

3. Pa fath o bethau ydych chi wedi gwneud yn y dosbarth sydd i wneud â ddaearyddiaeth?

Wrth ystyried mai thema gyfredol y dosbarth yw ‘Rhyfeddodau’r Byd’, mae eu gwybodaeth ddaearyddol ynglŷn â lleoedd fel India, Brasil a Tsieina wedi cynyddu yn ddiweddar felly, gydag un disgybl yn adfyfrio ar hyn trwy gyfeirio at eu gwybodaeth o’r Taj Mahal. Profiadau dysgu eraill sydd wedi aros yng nghof y disgyblion yw astudio effaith twristiaid ar atyniadau poblogaidd, a dysgu am fynyddoedd enwog Cymru.

4. Rhowch un gair i ddisgrifio beth yr ydych chi’n meddwl am ddaearyddiaeth & 5. Ydy ddaearyddiaeth yn rhywbeth hoffech chi wneud mwy ohoni?

Yr ansoddeiriau a ddaeth o’r cwestiwn hwn oedd ‘ffantastig’ a ‘hwyl’. Gwelwyd yr un ymateb galonogol gan blant tuag at ddaearyddiaeth yng ngwaith ymchwil Pike (2015:37), gyda’r disgyblion yn mynegi eu hoffter tuag at y pwnc a’r gweithgareddau hwylus sydd ynghlwm â dysgu ddaearyddol. Daw Pike i’r casgliad: “not only are children positive about their learning experiences in geography, but at all ages, they are also able to articulate why they hold these views.” Mae’r ffaith bod y disgyblion yn medru cynnig rhesymwaith hyderus dros eu mwynhad o’r pwnc yn cryfhau dilysrwydd eu safbwyntiau, ac yn cyfleu eu pleser mewn modd gwirioneddol a chredadwy.

4.3 Arsylwi Plant

Fel rhan ychwanegol o’r ymchwil penderfynwyd arsylwi ar ddosbarth o blant blwyddyn tri a phedwar yn ystod gwers ddaearyddiaeth, gan gofnodi ar eu perfformiad a’u hymrwymiad yn ystod y sesiwn. Cofnodwyd yr arsylwadau gan ddefnyddio model ARC y brifysgol [atodiad 10]. Sylwir yn y model bod ambell gyfeiriad at unigolion penodol (heb eu henwi). Y rheswm am hyn oedd i gynnwys cymaint o wybodaeth ag sy’n bosib am ymatebion y plant ynghyd â’u cryfderau a’u gwendidau o safbwynt ddaearyddiaeth.

Pennod 5- Casgliad

5.1 Adlewyrchu ar fwriad y prosiect ymchwil

Y prif nod wrth gynnal y prosiect ymchwil hwn oedd i ddarganfod os oedd yna gyfleoedd i hyrwyddo creadigrwydd o fewn daearyddiaeth yng Nghyfnod Allweddol 2. Bwriadwyd astudio'r cysylltiadau a fodolir rhwng y ddau faes, a'r ffyrdd y gellir ystyried y ddau fel cynghreiriaid yn y broses ddysgu ac addysgu.

5.2 Prif bwyntiau a godir

Un o'r canfyddiadau mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r astudiaeth hon yw'r ffaith bod daearyddiaeth yn derbyn canmoliaeth a pharch eang yng nghyd-destun y cwricwlwm. Gwelwyd ymatebion positif tuag at y pwnc, a'i rôl yng nghwricwlwm Cyfnod Allweddol 2. Adnabuwyd daearyddiaeth fel maes cwricwlaidd gwerthfawr a phwysig yn natblygiad a dealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas.

Er hynny, darganfuwyd wrth yr atebion nad yw addysgu daearyddiaeth yn broses sydd heb ei heriau. (Royal Geographical Society, 2014:1). Cyfeiriwyd at ffactorau amrywiol sydd yn medru bod yn rhwystro i'r dysgwyr a'r addysgwyr, felly wrth ystyried hyn efallai bod cyfle i gynnal ymchwil pellach er mwyn archwilio'r ffyrdd y gellir goresgyn problemau megis caffaeledd neu ansawdd adnoddau, a'r broses o ddysgu yn yr awyr agored.

Canfyddiad arall o bwys a darddwyd o'r gwaith ymchwil yw'r rhan allweddol y chwaraea creadigrwydd yn natblygiad addysgol plant. Mae'r astudiaeth hon wedi dangos bod gwerthoedd a theimladau athrawon tuag at greadigrwydd yn yr ysgol gynradd yn rhedeg yn baralel gyda'r hyn a honna awduron ac arbenigwyr erioed, hynny yw; ei fod yn rhan o fywyd cyfoes y dylid gwau i mewn i addysg pob plentyn (Donaldson, 2015:28).

Yn olaf, mae angen cydnabod y cysylltiad sydd wedi amlygu ei hun rhwng daearyddiaeth a chreadigrwydd o ganlyniad i'r amrywiol atebion a syniadau a gynigwyd gan y cyfranwyr trwy gydol y broses ymchwilio. Ar ddechrau'r broses, triniwyd y ddwy elfen fel meysydd ar wahân sydd yn cefnogi ei gilydd yn y broses addysgu. Bellach, gellir eu hystyried fel rhannau annatod o'i gilydd, a rhywbeth y dylid ei weithredu mewn undod â'i gilydd er mwyn sicrhau addysg ddaearyddiaeth i'r safon uchaf.

5.3 Dysgu proffesiynol

Teimlir bod yr ardal yma o'r cwricwlwm yn medru cael ei esgeuluso yn aml o fewn gosodiadau addysgol, ac yn cael ei gysylltu yn eang gyda'r sgil o ddarllen map ac adnabod prif ddinasoedd yn unig (Romero, 2014) Er hynny, cynhyrchir yr ymchwil hwn dadl gref yn erbyn y syniad yma, gan brofi bod daearyddiaeth hyn fwy na hynny. O safbwynt personol a phroffesiynol, magwyd ysgogiad a

brwdfrydedd yn yr ymchwilydd i sicrhau bod pob gwers daearyddiaeth a addysgir bellach yn llawn cyfleoedd i ddysgu *ac* addysgu yn greadigol; er lles y disgyblion a'r addysgwr ynghyd.

5.4 Awgrymiadau ar gyfer ymchwil pellach

Er y cynhyrchwyd canlyniadau positif a chefnogol, mae angen cydnabod bod nifer o gyfyngiadau i'r astudiaeth hon. Prif wendid yr astudiaeth hon yw maint y sampl. Petai mwy o athrawon wedi cyfrannu tuag at y prosiect teimlir y byddai mwy o gadernid a sylwedd i'r canlyniadau. Mae angen pendant felly am fwy o gyfraniad oddi wrth oedolion, trwy ffurf holiaduron a chyfweliadau.

Yn ogystal, un o'r goblygiadau ymarferol pwysig eraill yw'r ffaith mai dim ond ar lafar y derbyniwyd tystiolaeth gan ddisgyblion ynglŷn â daearyddiaeth. Argymhellir felly y dylid cynnal ymchwil pellach ar berfformiad disgyblion yn y maes, trwy gasglu samplau o waith a'u dadansoddi.

5.5 Diwedd glo

Awgryma Fisher & Binns (2016:309): "The study of geography deals with a key dimension of life-space and place in the *real world*: without an understanding of that dimension no young person is properly educated." I gyfateb gyda hyn yw diffiniad y Qualifications and Curriculum Authority (Banaji et al., 2010:23) o greadigrwydd; sef sgil sydd yn 'paratoi plant am fywyd'. I grynhoi, gan ystyried mai un o'r prif egwyddorion sydd yn tarddu o'r system addysg yw i baratoi plant ar gyfer y byd go iawn, yna ni ellir gwadu'r hanfodolrwydd o'r meysydd yma yn addysg ein cenhedlaeth ieuengaf.

Rhestr Cyfeirnod

- APADGOS. (2008a). *Daearyddiaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- APADGOS. (2008b). *Datblygiad Creadigol*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- BALE, J. (2013). *Geography in the Primary School (Routledge Revivals)*. Oxon: Routledge. [ar lein] Ar gael o: https://books.google.co.uk/books?id=hMRmAgAAQBAJ&printsec=frontcover&source=gbs_ge_summary_r&cad=0#v=onepage&q&f=false [Mynedwyd 1af o Ebrill 2016].
- BANAJI, S., BURN, A. and BUCKINGHAM, D. (2010) *The Rhetorics of Creativity: A literature review (2nd edition)*. Newcastle: Creativity, Culture and Education. [ar lein] Ar gael o: <http://www.creativitycultureeducation.org/wp-content/uploads/rhetorics-of-creativity-2nd-edition-87.pdf> [Mynedwyd 11eg o Ebrill 2016].
- BEANEY, M. (2005). *'Imagination and Creativity'*. Milton Keynes: Open University Press. [ar lein] Ar gael o: <https://www.open.ac.uk/Arts/aa308/imagination.pdf> [Mynedwyd 5ed o Ebrill 2016].
- BECTA. (2004). *What the Research Says about Using ICT in Geography*. Coventry: British Educational Communications and Technology Agency (BECTA). [ar lein] Ar gael o: http://dera.ioe.ac.uk/1653/66/wtrs_geography_Redacted.pdf [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].
- BONWELL, C.C. & EISON, J.A. (1991). *Active Learning: Creating Excitement in the Classroom*. ASHE-ERIC Higher Education Report No. 1. Washington, D.C.: The George Washington University, School of Education and Human Development. [ar lein] Ar gael o: <http://files.eric.ed.gov/fulltext/ED336049.pdf> [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].
- BRITISH EDUCATIONAL RESEARCH ASSOCIATION (BERA). (2011). *Ethical Guidelines for Educational Research*. London: British Educational Research Association. [ar lein] Ar gael o: <http://www.bbk.ac.uk/sshp/research/sshp-ethics-committee-and-procedures/BERA-Ethical-Guidelines-2011.pdf> [Mynedwyd 28ain o Fawrth 2016].
- BURNELL, S. (2008). *Getting pupils to take greater responsibility for their own learning during collaborative group tasks*. Coventry: National Teacher Research Panel. [ar lein] Ar gael o: http://www.curee-paccts.com/files/publication/1230895821/Getting_pupils_to_take_greater_responsibility_for_their_own_learning_during_collaborative_group_tasks.pdf [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].
- CATLING, S. & BOWLES, R. & HALOCHA, J. & MARTIN, F. & RAWLINSON, S. (2003). *The State of Primary Geography in England*. [ar lein] Ar gael o:

<http://cs3.brookes.ac.uk/schools/education/rescon/THE%20STATE%20OF%20PRIMARY%20GEOGRAPHY%20IN%20ENGLAND.pdf> [Mynedwyd 4ydd o Ebrill 2016].

CATLING, S. & WILLY, T. (2009). *Teaching Primary Geography*. Exeter: Learning Matters Ltd.

CATLING, S. (2001). 'English Primary Schoolchildren's Definitions of Geography' *International Research in Geographical and Environmental Education*, 10 (4), pp. 363-378. [ar lein] Ar gael o: <http://owwww.brookes.ac.uk/schools/education/rescon/epsdog.pdf> [Mynedwyd 1af o Ebrill 2016].

CHANDA, D.H. & PHIRI, S.N.A. & NKOSHA, D.C. (2000). *Teaching and Learning Materials: Analysis and Development in Basic Education*. [ar lein] Ar gael o: <http://unesdoc.unesco.org/images/0013/001320/132019eo.pdf> [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].

COMISIWN EWROPEAIDD. (2009). *Creativity in Schools in Europe: A Survey of Teachers*. [ar lein] Ar gael o: http://ftp.jrc.es/EURdoc/JRC55645_Creativity%20Survey%20Brochure.pdf [Mynedwyd 29ain o Fawrth 2016].

CRAFT, A. (2001). *An analysis of research and literature on CREATIVITY IN EDUCATION*. [ar lein] Ar gael o: http://www.creativetallis.com/uploads/2/2/8/7/2287089/creativity_in_education_report.pdf [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].

DAVIS, J.M. (2015). *Young Children and the Environment, Second Edition*. Melbourne: Cambridge University Press.

DEMIRALP, N. (2007). 'Geography Education Through Maps'. *Bulgarian Journal of Science and Education Policy (BJSEP)*, Vol.1, No.1, tt. 93-102. [ar lein] Ar gael o: <http://bjsep.org/getfile.php?id=36> [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].

DEPARTMENT FOR EDUCATION (DFE). (2013). *Geography Programmes of Study: Key Stages 1 and 2*. [ar lein] Ar gael o: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/239044/PRIMARY_national_curriculum_-_Geography.pdf [Mynedwyd 4ydd o Ebrill 2015].

DEPARTMENT OF EDUCATION. (2011). *Learning Begins at Home*. Perth: Department of Education. [ar lein] Ar gael o: <http://forestcrescentps.com/wp-content/uploads/2011/11/Learning-Begins-at-Home.pdf> [Mynedwyd 6ed o Ebrill 2016].

DONALDSON, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodaeth Cynulliad Cymru. [ar lein] Ar gael o: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf> [Mynedwyd 11eg o Ebrill 2016].

EARLY YEARS FOUNDATION STAGE (EYFS). (2007). *Effective Practice: Creativity and Critical Thinking*. [ar lein] Ar gael o: http://abcdoes.typepad.com/files/eyfs_ep_creativ_cri_think-1.pdf [Mynedwyd 25ain o Fawrth 2016].

EDUCATION SCOTLAND. (2013). *Creativity Across Learning 3-18*. Livingston: Education Scotland. [ar lein] Ar gael o: http://www.educationscotland.gov.uk/Images/Creativity3to18_tcm4-814361.pdf [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].

ENGLISH OUTDOOR COUNCIL (EOC). (2010). *Time for Change in Outdoor Learning*. [ar lein] Ar gael o: <http://www.englishoutdoorcouncil.org/wp-content/uploads/Change.pdf> [Mynedwyd 4ydd o Ebrill 2016].

ENTWISTLE, H. (2012). *Child-Centred Education, Second Edition*. Oxon: Routledge. [ar lein] Ar gael o: http://samples.sainsburysebooks.co.uk/9781136670046_sample_822957.pdf [Mynedwyd 5ed

ESTYN. (2016). *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*. [ar lein] Ar gael o: http://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/ESTYN_Annual%20Report%202016%20FINAL_WELSH_Accesible_WEB.pdf [Mynedwyd 26ain o Fawrth 2016].

FISHER, R. & WILLIAMS, M. (2004). *Unlocking Creativity: Teaching Across the Curriculum*. Oxon: David Fulton Publishers.

GEOGRAPHICAL ASSOCIATION. (2014). 'Visual Geography', Geographical Association. [ar lein] Ar gael o: <http://www.geography.org.uk/resources/visualgeography/> [Mynedwyd 5ed o Ebrill 2016].

GILLMAN, S. (2014). 'Outdoor Learning in Steiner Waldorf Schools', *Primary Geography*, tt. 26-27. [ar lein] Ar gael o: http://www.michaelhall.co.uk/wp-content/uploads/2014/10/PG_Autumn_2014_GILLMAN1.pdf [Mynedwyd 4ydd o Ebrill 2016].

GRIGG, R. & HUGHES, S. (2013). *Teaching Primary Humanities*. Oxon: Routledge.

HACKATHORN, J. & SOLOMON, E.D. & BLANKMEYER, K. & TENNIAL, R.E. & GARCZYNSKI, A.M. (2011). 'Learning By Doing: An Empirical Study of Active Teaching Techniques', *The Journal of Effective Teaching*, Vol. 11, No. 2, tt. 40-54. [ar lein] Ar gael o: http://uncw.edu/cte/et/articles/Vol11_2/Hackathorn.pdf [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].

HAMER, C. (2012). 'NCT Research Overview: Parent-Child Communication is Important from Birth', *NCT's Journal on Preparing Parents for Birth and Early Parenthood*, tt.15-20. [ar lein] Ar gael o: http://www.literacytrust.org.uk/assets/0001/3375/Hamer_NCT_research_overview_Parent_child_communication_p15-20_Mar12.pdf [Mynedwyd 6ed o Ebrill 2016].

- HMIE. (2006). *Emerging Good Practice in Promoting Creativity*. [ar lein] Ar gael o: <http://dera.ioe.ac.uk/6273/1/Emerging%20Good%20practice%20in%20Promoting%20Creativity.pdf> [Mynedwyd 26ain o Fawrth 2016].
- HOODLESS, P. & MCCREERY, E. & BOWEN, P. & BERMINGHAM, S. (2009). *Teaching Humanities in Primary Schools, Second Edition*. Exeter: Learning Matters Ltd.
- JESSON, J. (2012). *Developing Creativity in the Primary School*. Berkshire: Open University Press.
- JONES, R. & WYSE, D. (2013). *Creativity in the Primary Curriculum*. Oxon: Routledge.
- KYRIACOU, C. (2007). *Essential Teaching Skills (Third Edition)*. Cheltenham: Nelson Thornes Ltd.
- MAPES, J. (2013). *Imagination, Creativity & Innovation: Open Up a World of Creativity*. [ar lein] Ar gael o: <http://www.washingtonspeakers.com/images/pdfs/mapesjames.imaginationcreativityinnovation.07.15.13.pdf> [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].
- MORRIS, W. (2006). *Creativity: It's Place in Education*. [ar lein] Ar gael o: http://www.creativejeffrey.com/creative/Creativity_in_Education.pdf [Mynedwyd 7fed o Ebrill 2016].
- NATIONAL ADVISORY COMMITTEE ON CREATIVE AND CULTURAL EDUCATION (NACCCE). (1999). *All Our Futures: Creativity, Culture and Education*. [ar lein] Ar gael o: <http://sirkenrobinson.com/pdf/allourfutures.pdf> [Mynedwyd 26ain o Fawrth 2016].
- NATIONAL FOUNDATION FOR EDUCATIONAL RESEARCH (NFER). (2001). *Developing Young Children's Creativity Through the Arts: What Does Research Have to Offer?* [ar lein] Ar gael o: <https://www.nfer.ac.uk/publications/44420/44420.pdf> [Mynedwyd 25ain o Fawrth 2016].
- NATIONAL LITERACY TRUST. (2005). *Why Do Many Young Children Lack Basic Language Skills?* London: National Literacy Trust. [ar lein] Ar gael o: <http://www.literacytrust.org.uk/assets/0000/1151/discussionpaper.pdf> [Mynedwyd 6ed o Ebrill 2016].
- OFSTED. (2005). *Geography: 2004/5 Annual Report on Curriculum and Assessment*. [ar lein] Ar gael o: http://www.geography.org.uk/download/GA_NKS3QCAreport.pdf [Mynedwyd 1af o Ebrill 2016].
- OFSTED. (2010). *Learning: Creative Approaches that Raise Standards*. Manchester: Royal Exchange Buildings. [ar lein] Ar gael o: <http://www.creativitycultureeducation.org/wp-content/uploads/learning-creative-approaches-that-raise-standards-250.pdf> [Mynedwyd 24ain o Chwefror 2016].
- OFSTED. (2011). *Geography: Learning to Make a World of Difference*. Manchester: Royal Exchange Buildings. [ar lein] Ar gael o:

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/413722/Geography - Learning to make a world of difference.doc](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/413722/Geography_-_Learning_to_make_a_world_of_difference.doc) [Mynedwyd 23ain o Fawrth 2016].

ORD, J. (2012). 'John Dewey and Experiential Learning: Developing the Theory of Youth Work', *Youth & Policy*, No. 108, tt. 55-72. [ar lein] Ar gael o: <http://www.youthandpolicy.org/wp-content/uploads/2013/07/ord-yandp108.pdf> [Mynedwyd 8fed o Ebril 2016].

OXFORD DICTIONARIES. (2016). 'Creativity', Oxford Dictionaries [ar lein] Ar gael o: <http://www.oxforddictionaries.com/definition/english/creativity> [Mynedwyd 5ed o Ebrill 2016].

PHELLAS, C.N. & BLOCH, A. & SEALE, C. (2011). *Structured Methods: Interviews, Questionnaires and Observation*. [ar lein] Ar gael o: http://www.sagepub.com/sites/default/files/upm-binaries/47370_Seale_Chapter_11.pdf [Mynedwyd 28ain o Fawrth 2016].

PIKE, S. (2015). *Learning Primary Geography: Ideas and Inspiration from Classrooms*. Oxon: Routledge.

PUNCH, S. (2002). *Research With Children: The Same or Different from Research with Adults?* London: SAGE Publications. [ar lein] Ar gael o: <http://dreamscanbe.org/Reasearch%20Page%20Docs/Punch%20-%20research%20with%20children.pdf> [Mynedwyd 28ain o Fawrth 2016].

QLS STAFFORDSHIRE. (d.d). *Story and non-fiction books from other places and cultures*. [ar lein] Ar gael o: <http://www.sln.org.uk/geography/Documents/primary/Some%20Story%20and%20non-fiction%20books.pdf> [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].

QUALIFICATIONS AND CURRICULUM AUTHORITY (QCA). (2004). *Creativity: Find it, Promote it*. London: Qualifications and Curriculum Authority. [ar lein] Ar gael o: <https://www.literacyshed.com/uploads/1/2/5/7/12572836/1847211003.pdf> [Mynedwyd 28ain o Fawrth].

QUEEN MARGARET UNIVERSITY. (2011). *Revised Research Ethics Guidelines, Procedures and Regulations*. [ar lein] Ar gael o: <http://www.qmu.ac.uk/quality/documents/Revised%20Ethics%20Guidelines%20Oct%202010.doc> [Mynedwyd 28ain o Fawrth 2016].

RADOVIC-MARKOVI, M. (2012). 'Creative education and new learning as means of encouraging creativity, original thinking and entrepreneurship'. *The Book of Proceedings Humanities and the Contemporary World, Montenegrin Academy of sciences and Arts, Podgorica, Montenegro*. [ar lein] Ar gael o: http://www.worldacademy.org/files/Montenegro_Conference/Creative_Education_and_New_Learning_as_Means_of_Encouraging_Creativity_by_Mirjana_Radovic.pdf [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].

- RAILSBECK, J. (2002). *Project-Based Instruction: Creating Excitement for Learning*. Oregon: Northwest Regional Educational Laboratory. [ar lein] Ar gael o: <http://educationnorthwest.org/sites/default/files/projectbased.pdf> [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].
- ROBINSON, K. & AZZAM, A. (2009). 'Why Creativity Now?', *Educational Leadership*, 67, 1, tt.22-26. [Mynedwyd 24ain o Fawrth 2016].
- ROMERO, A. (2014). 'Geography More Than Just Maps and Capitals', [ar lein] Ar gael o: <https://www.siue.edu/artsandsciences/CTarticle158.pdf> [Mynedwyd 11eg o Ebrill 2016].
- ROYAL GEOGRAPHICAL SOCIETY. (2014). *Demand for Geography*. [ar lein] Ar gael o: <https://www.rgs.org/NR/rdonlyres/1422E618-F932-4F20-9500-C9C605246076/0/Employabilitydemandforgeography.pdf> [Mynedwyd 11eg o Ebrill 2016].
- ROYAL GEOGRAPHICAL SOCIETY. (d.d). *What is My Local Area Like?* [ar lein] Ar gael o: <https://www.rgs.org/NR/rdonlyres/9CFFC26C-0B09-4C09-BE43-406A7B237C2F/0/Primaryfieldworksettlementandlanduse.pdf> [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].
- SCOFFHAM, S. (2007). *Geography and Creativity: An Overview*. [ar lein] Ar gael o: https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=3&cad=rja&uact=8&ved=0ahUKEwixqtTD19vLAhVBlhQKHwyuCWAQFggsMAI&url=http%3A%2F%2Fwww.geography.org.uk%2Fcpdevents%2Fteachingandlearning%2Fgeographyandcreativity%2F&usg=AFQjCNHRIHbX3zeFyYH_n9Gwg0bztSa2fg&sig2=odfm1xFouf5KsoegQOY0DA [Mynedwyd 25ain o Fawrth 2016].
- SCOFFHAM, S. (2013). *Teaching Geography Creatively*. Oxon: Routledge.
- SEAL, K. (2003). 'Raising Self-Motivated Children', *High/Scope ReSource, A Magazine for Educators*. tt.1-4 [ar lein] Ar gael o: <http://www.highscope.org/file/NewsandInformation/ReSourceReprints/Motivated.pdf> [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].
- SEFERTZI, E. (2000). 'Creativity', [ar lein] Ar gael o: http://www.adi.pt/docs/innoregio_creativity-en.pdf [Mynedwyd 5ed o Ebrill 2016].
- SHARP, C. (2004). 'Developing Young Children's Creativity: What Can we Learn from Research?', *National Foundatio for Educational Research*, Issue 23, tt. 5-12. [ar lein] Ar gael o: <https://www.nfer.ac.uk/nfer/publications/55502/55502.pdf> [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].
- SHAW, S. (2011). *History of Education*. [ar lein] Ar gael o: http://www.sagepub.com/sites/default/files/upm-binaries/41969_9780857027382.pdf [Mynedwyd 26ain o Fawrth 2016].

SMITH, R.C. (2003). 'Teacher education for teacher-learner autonomy', *Symposium for Language Teacher Educators: Papers from Three IALS Symposia (CD-ROM)*. Edinburgh: IALS, University of Edinburgh. [ar lein] Ar gael o: http://homepages.warwick.ac.uk/~elsdr/Teacher_autonomy.pdf [Mynedwyd 8fed o Ebrill 2016].

STOKES, D. (d.d). 'The Role of Imagination in Creativity'. Toronto: University of Toronto. [ar lein] Ar gael o: http://stokes.mentalpaint.net/Research_files/The%20role%20of%20imagination%20in%20creativity-REV-web.pdf [Mynedwyd 5ed o Ebrill 2016].

THE DEPARTMENT FOR INTERNATIONAL DEVELOPMENT (DFID). (2005). *Developing the Global Dimension in the School Curriculum*. Glasgow: The DFID Public Enquiry Point. [ar lein] Ar gael o: <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130401151715/http://education.gov.uk/publications/eorderdownload/1409-2005pdf-en-01.pdf> [Mynedwyd 4ydd o Ebrill 2016].

THE GUARDIAN. (2012). 'Why Global Awareness Matters to Schools', *Teacher Network*. [ar lein] Ar gael o: <http://www.theguardian.com/teacher-network/2012/nov/05/global-awareness-schools-education> [Mynedwyd 4ydd o Ebrill 2016].

VALENZUELA, D. & SHRIVASTAVA, P. (d.d). *Interview as a Method of Qualitative Research*. [ar lein] Ar gael o: <http://www.public.asu.edu/~kroel/www500/Interview%20Fri.pdf> [Mynedwyd 28ain o Fawrth 2016].

WIEGAND, P. (1993). *Children and Primary Geography*. London: Cassell.

WILSON, A. (2009). *Creativity in Primary Education (Second Edition)*. [ar lein] Ar gael o: <http://www.steveslearning.com/Teacher%20Training%20resources/cremin.pdf> [Mynedwyd 6ed o Ebrill 2016].

WILSON, A. (2015). *Creativity in Primary Education (Third Edition)*. London: Learning Matters Ltd.